# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru** |
| **DYDDIAD** | **10 Rhagfyr 2025** |
| **GAN** | **Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai** |

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n rhoi gwybod i Aelodau'r Senedd imi gynrychioli Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2025.

Cyfarfod rhithwir oedd hwn a gafodd ei gynnal gan Lywodraeth yr Alban. Yn bresennol roedd Graeme Dey ASA, y Gweinidog dros Fusnes Seneddol, Llywodraeth yr Alban (Cadeirydd, yn bresennol wyneb yn wyneb), Samantha Dixon AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (yn bresennol wyneb yn wyneb) a Matthew Patrick AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Swyddfa Gogledd Iwerddon (ar-lein).

Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am Fil drafft Etholiadau arfaethedig Llywodraeth y DU, a fydd yn cynnwys meysydd y byddai angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Clywais hefyd am baratoadau ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban ym mis Mai 2026 a rhoddais yr wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygiadau a pharatoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer etholiadau i'r Senedd ym mis Mai 2026. Cynhaliwyd hefyd drafodaethau defnyddiol ar ymgysylltu â democratiaeth a materion o ran diogelwch etholiadau a diogelwch ymgeiswyr.

Cafodd cyd-hysbysiad ynglŷn â'r cyfarfod hwn ei gyhoeddi ar Dydd Mercher 10 Rhagfyr 2025. [Interministerial Group for Elections and Registration Communique: 30 October 2025 - GOV.UK]

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd a bwriedir cynnal cyfarfodydd bob chwarter. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.